

Enw'r Sefydliad: Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn

Ym mha ffyrdd rydych chi'n defnyddio Y Ffordd Gywir/CCUHP yn eich gwaith?

Mae gennym Strategaeth Gyfranogi sy'n ymgorffori Hawliau plant yn ein gwasanaeth. Rydyn ni'n adolygu ein Strategaeth Gyfranogi ar hyn o bryd er mwyn ymgorffori egwyddorion CCUHP ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Trosolwg cryno o'r gwaith a gyflawnwyd a manteision ymgorffori Y Ffordd Gywir/CCUHP

Gwreiddio - Rydyn ni wedi creu strategaeth gyfranogi sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd er mwyn ymgorffori tueddiadau cyfredol a pholisïau sy'n cwmpasu pob maes yn y gwasanaeth. Bydd hyn hefyd yn ymgorffori Y Ffordd Gywir/CCUHP fel strategaeth gyfannol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn.

Ethos y strategaeth gyfranogi yw parhau i feithrin ymwybyddiaeth gyda phlant a phobl ifanc ac addysgu a hyfforddi ein staff yn flynyddol. Estynnwyd hyfforddiant CCUHP hefyd i asiantaethau partner fel CAMHS, y Gwasanaeth Ieuencid a'r Gwasanaethau Plant yng Ngwynedd a Môn. Darparwyd yr hyfforddiant blynyddol gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant ac fe'i cyllidwyd gan Lywodraeth Cymru.

Grymuso - Cyn Covid-19, cynhaliwyd gweithdai gydag uwch-reolwyr lle rhoddwyd cyfle i blant a phobl ifanc yn y gwasanaethau rannu eu taith oddi mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, daeth pobl ifanc i gyfarfodydd y bwrdd rheoli ar gyfer sesiynau holi ac ateb a rhoddwyd cyfle iddynt gadw dyddiaduron myfyriol. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys cyflwyno grwpiau ffocws a chwblhau darnau o waith ar gyfer *Leaders Unlocked* a fu'n cynnal gwaith ymchwil ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddol.

Cyfranogiad - Buddsoddwyd mewn technoleg meddalwedd *Viewpoint* er mwyn casglu barn a syniadau plant a phobl ifanc ac mae gennym ein Strategaeth Gyfranogi ein hunain, sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r plant a'r pobl ifanc sy'n llenwi holiadur am y tro cyntaf yn cael cylch allwedd sy'n cynnwys dolenn/côd QR sy'n rhoi mynediad i'w proffil yn Viewpoint. Mae ein gwefan yn darparu fideos a dolenni, er enghraifft INSIDE OUT, ac yn cyfeirio at ddolenni a manylion cyswllt gwasanaethau cynghori a chefnogi eraill ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Trwy greu holiaduron ar gyfer pob carfan sy'n dechrau gyda Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn, mae modd cofnodi barn a safbwyntiau pobl ifanc yn uniongyrchol. O ganlyniad, bydd y plant a'r pobl ifanc yn llenwi holiaduron cychwynnol, hanner ffordd ac ar y diwedd. Trwy wneud hyn bu modd i ni ddod i ddeall profiadau plant a phobl ifanc ar hyd eu cyfnod gyda'r Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys eu profiadau addysg, y system cyfiawnder troseddol, cyfiawnder adferol, ochr yn ochr â golwg ar lesiant emosiynol a iechyd meddwl pobl ifanc. Trwy ddefnyddio'r dechnoleg hon gallwn gofnodi nid yn unig eu profiad o'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid ond hefyd eu profiad o'r System Cyfiawnder Troseddol gyfan.

Ar ben hynny, yn achos plant a phobl ifanc sy'n dechrau datgysylltu oddi wrth eu gorchymyn, mae cyfle i'w hatgyfeirio i sesiynau cyfranogi gwirfoddol. Meithrin perthnasoedd cadarnhaol mewn ffordd sy'n cael ei lywio gan drawma yw ffocws y sesiynau hyn, gan roi cyfle ar yr un pryd i'r pobl ifanc ailgysylltu â'u gorchymyn mewn dull anghlinigol, yn y gobaith y bydd gwranddo ar farn pobl ifanc, rhoi blaenoriaeth i'w hanghenion a gweithio gyda nhw mewn amgylchedd cefnogol yn rhoi cyfle iddyn nhw ailgysylltu ac osgoi achosion posibl o ganlyniad i dorri amodau. Bydd yr holl blant a atgyfeirir ar gyfer cymorth cyfranogi yn cael taflen sy'n esbonio'u hawliau mewn iaith sy'n hawdd i blant ei deall.

Atebolrwydd - Yn ystod y pandemig, cyflwynwyd holiaduron unwaith yn unig ynghylch COVID-19 hefyd i gasglu profiadau ac anghenion blaenoriaethol plant a phobl ifanc mewn sawl maes yn ystod y pandemig. Mae canlyniadau'r holiaduron yn cadarnhau bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel Whatsapp a Facebook fel cyfrwng i fynegi barn a safbwyntiau. Bu hyn yn gymorth amhrisiadwy i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn o ran deall sut mae gwella a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant yn seiliedig ar farn a safbwyntiau pobl ifanc.